WARD, JOHN (1856 - 1922), ceidwad amgueddfeydd, a hynafiaethydd

Enw: John Ward
Dyddiad geni: 1856
Dyddiad marw: 1922
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ceidwad amgueddfeydd, a hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant
Awdur: Archibald Henry Lee

Ganwyd yn Derby, fis Chwefror 1856, a bu farw yno 18 Mehefin 1922. Cychwynnodd yn fferyllydd, ond yn 1893 penodwyd ef yn geidwad amgueddfa tref Caerdydd. Ymroes i gasglu yno bethau o ddiddordeb neilltuol Gymreig, ac mewn canlyniad newidiwyd enw'r amgueddfa i ' The Welsh Museum of Natural History, Arts and Antiquities.' Yn 1912 pan ddaeth amgueddfa Caerdydd yn rhan o Amgueddfa Genedlaethol Cymru penodwyd Ward yn geidwad archaeoleg yn honno. Bu'n cloddio mewn mwy nag un llecyn o ddiddordeb hynafiaethol megis gwersyll Rhufeinig Gelligaer a chromlech S. Nicholas ym Morgannwg. Cyhoeddodd ddau lyfr *Romano-British Buildings and Earthworks*, 1911, a *The Roman Era in Britain*, 1911, a chyfrannodd res hir o bapurau pwysig ar hynafiaethau a phynciau cyffelyb i *Trans. Cardiff Nat. Soc.*, *Archæologia Cambrensis*, *Arch. Jnl.*, ac *Archaeologia*. Yn 1918 cafodd y radd o M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru.

Awdur

Archibald Henry Lee

Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20751815

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Lee, A. H., (1953). WARD, JOHN (1856 - 1922), ceidwad amgueddfeydd, a hynafiaethydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WARD-JOH-1856

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government